

# Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher 26ain o Fedi 2018  
yn Swyddfa, Parc Menai am 7.00pm.

## Agenda

Presennol

Ymddiheuriadau

Cod Ymddygiad

Cofnodion Cyfarfod diwethaf 29-08-2018

Materion yn codi o'r cofnodion

Adroddiad Ariannol

Archwylwyr Allannol

Ceisiadau Nawdd

- Llais Ogwan – dim cais o'r newydd ond disgwyl mantolen – 2017-18
- Seintiau Bangor

Taliadau angen sylw

D W Lewis	Torri Mis Medi
Cyflog	Mis 6 Medi
HMRC	Mis 6
Grid 76 Signs	Map Treborth
Anghenion Swyddfa	Ffeils y Llawlyfr
Llywodraeth Cymru	Ysw a Rhent hyd at 11-10-18

Derbynebion

1. Gosod Carreg Gwaith Coffaol Llanrug
2. TAW yn ol o 2017-18

I'w trafod hefyd

O'r Cyfarfod Asedau      Prisiau prynu biniau Halen a'i llenwi

Telerau y Fynwent - awgrymu 'streamlinio costau' i helpu'r Clerc

Ymateb Gamlins i

1. gofnodion/cyfrifon canolfan Penrhos
2. Llythyr Dafydd Gibbard

Diweddariad Prosiect Ysgol Y Faenol

Prydles y Swyddfa      Opsiynau

Argymhelliad

# Cyngor Cymuned Pentir

## Cofnodion cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher 29ain o Awst 2018 yn Swyddfa, Parc Menai am 7.00pm.

Presennol Cyng C. E. Hughes - J. Pierce - D Jones-Morris, - D W Jones a B Jones

Ymddiheuriadau Cyng L James,

Etholwyd Cyng C. E. Hughes i gadeirio yn absenoldeb Cyng L James

Cod Ymddygiad Dim datgan buddiant

### Cofnodion Cyfarfod diwethaf 26-06-2018

Cynnigwyd eu bod yn gofnod cywir gan Cyng D Jones-Morris a'r Cyng B Jones yn eilio

Materion yn codi o'r cofnodion Dim materion yn codi

### Adroddiad Ariannol

Dosbarthwyd mantolen ariannol am Mis Gorffennaf ag Awst oedd yn dangos fod £26,210.64 yn y cyfrif ddiwedd Gorffennaf a £25,607.09 yno ddiwedd busnes 29-08-18

Adroddwyd fod e-bost wedi cyrraedd y Clerc y pnavn hwnnw yn datgan y byddai, £25K, ail daliad Praesept 2018-19 yn y cyfrif o fwen y tri diwrnod nesaf.

Archwylwyr Allannol

Adroddodd y Clerc iddo fod wedi cael e-bost gan BDO gyda'r ymholiadau isod

Beth yw'r pwynt sydd heb ei ddatrys?	Beth sydd ei angen i ddatrys y mater?	Pam mae hyn yn angenrheidiol?
Ni chafodd dyddiad / cyfeirnod cofnodion ei nodi yn y blwch priodol ynghylch cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol mewn cyfarfod.	Mae angen i chi ddarparu copi ardystiedig o gofnodion y cyfarfod lle cafodd y Ffurflen Flynyddol ei chymeradwyo, gan nodi'n glir gyfeirnod y cofnodion hyn sy'n dangos y gymeradwyaeth.	Mae'r Ffurflen Flynyddol yn anghyflawn, ac mae angen yr wybodaeth hon arnom i gwblhau'r archwiliad.
Mae Atodiad 3 rhan b yn gofyn am dystiolaeth i ddangos bod yr argymhellion gafodd eu gwneud yn dilyn archwiliad 2015-16 wedi cael eu gweithredu / eu datrys yn 2017/18, ond rydych chi wedi darparu'r wybodaeth hon ar gyfer archwiliad 2016-17 yn unig.	Mae angen i chi ddarparu tystiolaeth i ddangos bod yr argymhellion gafodd eu gwneud yn dilyn archwiliad 2015-16 wedi cael eu gweithredu/eu datrys yn 2017-18	Mae hyn yn wybodaeth safonol sy'n ofynnol er mwyn cwblhau'r archwiliad.
Mae gwybodaeth ar goll yn Atodiad 4 2a/b).	Mae angen i chi ddarparu dadansoddiad o'r £5,000 gan esbonio pwrpas yr arian. Yn ogystal â hyn, mae angen i chi ddarparu cadarnhad o nifer yr etholwyr ar 01/01/2017.	Mae hyn yn wybodaeth safonol sy'n ofynnol er mwyn cwblhau'r archwiliad.
Nid yw'r cofnodion a ddarparwyd yn gopiâu wedi eu hardystio ac ar ben hynny, nid ydynt wedi cael eu llofnodi gan y cadeirydd.	Mae angen i chi ddarparu tystiolaeth fod y cofnodion a ddarparwyd wedi eu hardystio fel copiâu dilys a'u bod wedi cael eu llofnodi gan y cadeirydd.	Mae hyn yn wybodaeth safonol sy'n ofynnol er mwyn cwblhau'r archwiliad.

Esboniodd y Clerc iddo fod wedi bod ar y ffôn hefo BDO yn esbonio na allai fod wedi gallu anfon cofnodion wedi eu llofnodi a'i ardstio gan nad oedd cyfarfod o'r Cyngor Llawn wedi bod rhwng y 26ain o Fehefin pan dderbynwyd adroddiad yr Archwilwyr mewnnol a chymeradwyo i'r Cadeirydd ei arwyddo tan y 12fed o Orffennaf a'r Adroddiad ariannol i fod yn nwylo BDO ar yr 2ail o Orffennaf 'Roedd erbyn hyn wedi ymateb yn ysgrifenedig i'r 4 pwynt a'r Cadeirydd wedi eu llofnodi

### Ceisiadau Nawdd

- Marie Currie Derbynwyd e-bost gan yr elusen yma gan Victoria Hardy swyddfeydd yn Rhyl Trafodwyd a chytuno i argymhell cyfrannu £300
- Llais Ogwan Derbynwyd cais blynyddol gan y Papur Bro gyda'r argymhelliad cyfranu £300 eto eleni ond i wneud hynny yn dilyn derbyn manolen ariannol gyfredol 2018 yn hytrach na 2017 fel oedd wedi ei chynnwys.

### Cytunwyd y Taliadau canlynnol

D W Lewis      Torri gwair Gorffennaf ag Awst    Cyflog y Clerc    Mis 5 Awst      HMRC    Mis 5

### Derbynebion

3 Siec am 4 Angladdau    Mehefin – Gorffennaf ag    Awst wedi eu derbyn a'u talu i'r cyfrif

### Trafodwyd

Prisiau prynu biniau Halen a'i llenwi    Pris eu llenwi wedi ei gadarnhau ond addewid y byddai pris gosod biniau o'r newydd a'i llenwi wedi ei wneud ond heb ei dderbyn.

**Cytunwyd i bob Cynghorydd ystyried lle mae biniau yn barod ar eu ardal a ble byddai yn dderbynniol cael rhai ychwanegol**

Ymateb Gamlins i gofnodion/cyfrifon ein dwy ganolfan

Cytunwyd trefnu /gwahodd Gamlins i'n cyfarfod gan ein bod wedi derbyn cyflenwad sylweddol erbyn hyn i sicrhau ein bod yn cyd-fynd a'm gofynion cyfreithiol

Diweddariad    Prosiect Ysgol Y Faenol Llythyr wedi ei dderbyn gan D Gibbard parthed y prydles

Cytuno eto i Gamlins fwrw golwg dros y llythyr ag ymateb ar ein rhan

### Prydles y Swyddfa

Pnawn heddiw Cyng L James wedi derbyn e-bost yn amlinnellu telerau newydd ar gyfer adnewyddu prydles y Swyddfa, sy'n dod i ben 11-10-18

Cais i godi y Rhent o £5K i £6K a'r tal gwasanaeth o £300 i £400 y flwyddyn. Y ddau swm +TAW

Aneglur y rhesymeg o godi 20% ar y rhent a 33% ar Tal Gwasanaeth

Clerc i gysylltu a chychwyn trafodaethau a dod yn ol i'r IBC

Daeth y Cyfarfod i ben am 9.00 y.h